Dinas a Sir Abertawe

Polisi Parcio i Breswylwyr - Cymeradwywyd gan y Cabinet ar 5 Gorffennaf 2012

1. Diben

1.1 Bwriad cynlluniau parcio i breswylwyr yn unig yw cadw rhan o'r ffordd ar gyfer preswylwyr a'u hymwelwyr yn unig, pan fydd argaeledd parcio ar y stryd wedi'i gyfyngu gan y rhai nad ydynt yn breswylwyr sy'n dymuno parcio ar y stryd.

1.2 Nid yw cynlluniau parcio i breswylwyr yn unig yn effeithiol, ac ni chânt eu cyflwyno, pan fo'r galw allanol yn isel ond cânt eu cyflwyno pan fydd nifer y preswylwyr sy'n berchen ar geir yn fwy na nifer y lleoedd parcio. Mae cynlluniau parcio i breswylwyr yn helpu i reoli lleoedd parcio prin - nid ydynt yn creu lleoedd parcio ychwanegol ac nid ydynt yn gwarantu lle y tu allan i eiddo unrhyw breswylydd.

2. Meini prawf asesu

2.1 Ni chaiff strydoedd lle gofynnir am gyfleusterau parcio i breswylwyr eu harolygu i bennu a ydynt yn bodloni'r meini prawf isod, **oni bod arian ar gael i roi'r mesurau ar waith os yw'r stryd yn gymwys.** Cedwir cofnod o'r ceisiadau ar gyfer cynlluniau Parcio i Breswylwyr i'w hasesu a'u hystyried unwaith y bydd arian ar gael.

3. Meini prawf cyflwyno

3.1 Gall y cyngor gyflwyno cynllun Parcio i Breswylwyr ar yr amod y bodlonir yr amodau canlynol:

3.2 Bod mwy na 75% o'r ardaloedd parcio'n llawn yn y stryd neu'r ardal yn rheolaidd am o leiaf pedwar achlysur, yn ystod y dydd neu gyda'r nos, bob wythnos. (Os nad yw'r stryd yn cyrraedd y lefel uchel hon ond mae'n mynd y tu hwnt i 60%, yna efallai y cyflwynir cynllun "Aros Cyfyngedig, ac eithrio Deiliaid Trwyddedau Preswylwyr.)

3.3 Ceir tystiolaeth o lefelau sylweddol o barcio ar y stryd gan bobl nad ydynt yn breswylwyr.

3.4 Nid oes gan y mwyafrif o eiddo fannau parcio oddi ar y stryd o fewn pellter rhesymol o'r eiddo.

3.5 Nid oes gan y mwyafrif o eiddo ffordd o greu mynediad cerbydau i'r eiddo (gan gynnwys amgylchiadau lle mae cais/ceisiadau am fan/fannau croesi wedi'i wrthod/wedi'u gwrthod) ac nid oes ffordd o ddarparu cyfleusterau parcio o fewn ffiniau'r eiddo.

3.6 Gellir parcio heb gael effaith annerbyniol ar lif cyffredinol traffig a bysus.

3.7 Mae arian ar gael i hysbysebu'r mesurau a'u rhoi ar waith.

4. Darpariaeth

4.1 Ni ddylai dyraniad y mannau parcio i breswylwyr fod yn fwy na 50% o'r lleoedd parcio. Pan fydd rhwng 60% a 75% o'r mannau parcio yn cael eu defnyddio, efallai y darperir lleoedd aros cyfyngedig gydag eithriad i ddeiliaid trwyddedau preswylwyr. Ystyrir y ddarpariaeth ar stryd fesul achos mewn ymdrech i ddiwallu anghenion preswylwyr ac ymwelwyr.

4.2 Gellir cyflwyno uchafswm o ddwy drwydded fesul aelwyd, y bydd pob un ohonynt yn cynnwys rhif cofrestru'r car. Bydd pob trwydded yn ddilys am flwyddyn ar y mwyaf.

4.3 Gellir prynu trwydded newydd os ydych wedi colli trwydded, ei bod wedi'i dwyn neu wedi'i difetha am £25 fesul trwydded.

5. Meini prawf cyflwyno trwydded

5.1 Rhoddir trwyddedau i breswylwyr dilys amser llawn y stryd sy'n berchen ar gar. Bydd ymgeisydd yn breswyliwr amser llawn os yw'r enw priodol a'r cyfeiriad yn Abertawe yn ymddangos ar y ddogfen V5 (cofrestru cerbyd) a **naill ai** ei drwydded yrru **neu** fil cyfleustod a bod ei enw hefyd yn ymddangos ar Gofrestr Etholiadol Abertawe.

5.2 Mae'r un meini prawf (fel yn 5.1) uchod) yn berthnasol i ddinasyddion tramor.

5.3 Rhoddir trwydded ar gyfer cerbyd nwyddau ag uchafswm pwysau gros (mgw) heb fod yn fwy na 3500kg, os bydd y perchennog yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig gan y cyflogwr, o ddefnydd awdurdodedig y tu allan i oriau (e.e. trefniadau modd segur) ac nid yw'r cerbyd yn fwy na 2.35m o uchder a 5.35 metr o hyd.

5.4 Bydd defnyddwyr ceir cwmni yn gymwys am drwydded parcio i breswylwyr yn unig os yw eu cyflogwr yn cadarnhau'n ysgrifenedig bod y cerbyd yn hanfodol ar gyfer eu gwaith a bod yn rhaid iddynt fynd â'r cerbyd gartref gyda hwy.

5.5 Lle mae person anabl yn berchen ar gerbyd ond nid yw'n gallu gyrru ac felly'n defnyddio gyrrwr enwebedig, rhoddir trwydded i'r gyrrwr enwebedig ar gyfer cyfeiriad y gyrrwr enwebedig. I gymhwyso, mae angen llythyr awdurdodiad ar y cyngor gan y person anabl (ceidwad cofrestredig) a chopi o'r dogfennau perchnogaeth/gwerthu gan y cwmni Motability'n cadarnhau lle cedwir y cerbyd.

5.6 Ni roddir trwyddedau i gyfadeiladau preswyl â lleoedd parcio preifat ar gyfer lleoedd parcio i breswylwyr yn unig ar y stryd.

5.7 Caiff tai a newidiwyd yn fwy nag un uned (e.e. tŷ wedi'i rannu'n fflatiau) ar ôl 1 Ionawr 2011 eu trin fel uned sengl - h.y. uchafswm o ddwy drwydded am y tŷ cyfan neu'r cyntaf i'r felin. Rhoddir trwyddedau'n unig lle na ddarperir parcio oddi ar y stryd neu nid oes modd ei gyflwyno.

5.8 Efallai y caiff preswylwyr mewn eiddo nad oes ganddynt gyfleusterau parcio oddi ar y stryd ac sy'n cael eu hatal rhag parcio y tu allan i'w heidio oherwydd ei fod wrth gyffordd a reolir gan oleuadau traffig, neu wrth gylchfan a bod Gorchymyn Traffig yn atal parcio, dderbyn trwydded ar gyfer stryd gyferbyn lle darperir parcio i breswylwyr, cyhyd â bod digon o le yn y lleoedd parcio hynny i breswylwyr.

6. Trwyddedau perthnasol eraill

6.1 Trwyddedau i Ymwelwyr Gwyliau - gallwn roi trwydded wyliau pythefnos i ymwelwyr sy'n byw y tu allan i Ddinas a Sir Abertawe, gan gynnwys perchnogion ail gartrefi yn Abertawe. Rhaid i ddeiliad neu berchennog yr eiddo yn Abertawe neu'r person yr ymwelir ag ef lofnodi ffurflen gais. Bydd uchafswm o bedair trwydded y flwyddyn ar gael; am bythefnos fesul trwydded, gydag uchafswm o ddwy drwydded ar yr un pryd. Dim ond un drwydded a roddir i un cyfeiriad ar y tro.

6.2 Gall cwmnïau gwyliau sy'n rhenti eiddo gyflwyno cais am drwyddedau gwyliau i gwsmeriaid am £25 yr wythnos wrth dderbyn cais ysgrifenedig. Ni roddir gostyngiad am arosiadau sy'n llai nag wythnos.

6.3 Trwydded Ymwelydd Teuluol - rhoddir trwydded ymwelydd teuluol i'w defnyddio gan berthnasau dynodedig preswylydd y mae angen lefelau sylweddol o ofal a chefnogaeth arnynt, **os nad oes mwy nag un drwydded preswylwyr yn unig wedi'i chyflwyno ar gyfer yr eiddo.** Gellir arddangos uchafswm o ddau rif cofrestru ar y drwydded. Bydd y trwyddedau hyn yn ddilys am 12 mis o'r dyddiad cyflwyno.

6.3.1 Mae angen cadarnhad gan feddyg o'r angen am y drwydded wrth gyflwyno cais neu adnewyddu. Fodd bynnag, lle mae'r meddyg yn bwriadu codi tâl am y gwasanaeth hwn, yna ystyrir bathodyn glas fel tystiolaeth gefnogol ddilys arall yn lle cadarnhad gan y meddyg o anabledd yr ymgeisydd.

6.4 Trwyddedau Cynorthwywyr Gofal - rhoddir y trwyddedau hyn i sefydliadau/cwmnïau sy'n darparu gofal, wrth dderbyn ffurflen gais wedi'i llofnodi. Rhaid i'r ymgeisydd gadarnhau mai'r gofalwr yw'r prif berson sy'n trin anghenion corfforol y preswylydd. Bydd y drwydded hon yn ddilys am flwyddyn o ddyddiad ei chyflwyno a bydd yn £25 y flwyddyn.

7. Ffioedd

7.1 Mae'r ffioedd yn y polisi hwn yn destun adolygiad blynyddol.